# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | ***Mawndiroedd i'r Dyfodol*** – adfer mawndiroedd Cymru ar gyfer pobl a bywyd gwyllt: rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ardal o fawndir lled-naturiol yn cael ei rheoli'n gynaliadwy erbyn 2020. |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 32.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ceri Davies |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Clive Walmsley/Pete Jones |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Nodi'r rhesymeg dros adfer mawndiroedd a'r manteision lluosog sy'n gysylltiedig â'u hadfer o ran bioamrywiaeth, lleihau allyriadau carbon, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a rheoli perygl llifogydd.<br><br>Nodi cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru hyd yma o ran cynorthwyo i ddatblygu targed Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer mawndiroedd, a chymeradwyo ein cyfraniad parhaus o safbwynt darparu tystiolaeth, cyngor a gwaith cyflawni, gan gynnwys datblygu prosiectau mawr a gaiff eu hariannu'n allanol. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br>Bydd gwneud gwaith adfer yn awr ac yn y dyfodol agos yn sicrhau'r manteision amgylcheddol hirdymor a ddarperir gan fawndiroedd.<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br>Mae'r rhaglen weithredu ar gyfer mawndiroedd a ddisgrifir yma'n berthnasol i nifer o ffactorau ysgogi ac mae'n cynnig llawer o fanteision amgylcheddol.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** |

| | |
|---|---|
| | Mae mawn i'w gael ledled Cymru ac mae'n cynnig manteision amgylcheddol i bob rhan o'r gymdeithas.<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br>Mae llawer o sectorau'n ymwneud â chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer mawndiroedd ac mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gwaith hwn wedi'i seilio'n gadarn ar weithio mewn partneriaeth.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae gwaith adfer yn gwella gallu mawndiroedd i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan helpu i atal carbon rhag cael ei golli i'r atmosffer yn y dyfodol. |

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r gwaith a wneir i gefnogi menter Llywodraeth Cymru i adfer mawndiroedd. Mae'n amlinellu disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd yn cael cymorth parhaus gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae hefyd yn amlinellu ein hymwneud â mentrau adfer mawr / ein rôl arweiniol yn y mentrau hynny.

## Cefndir

2. Mae mawndiroedd yn un o asedau naturiol hanfodol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adfer pob ardal o fawndir sy'n cynnal cynefin lled-naturiol yng Nghymru (tua 66,000 hectar) erbyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Grŵp Rhanddeiliaid Gweithredu ar Fawndiroedd i helpu i gyflawni hynny ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo'r Grŵp hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ran hanfodol i'w chwarae o safbwynt cyflawni'r targed ar gyfer 2020, a bod Glastir yn chwarae rhan bwysig hefyd. Mae ein prif rolau'n cynnwys darparu cyngor technegol strategol o ran blaenoriaethu'r ardaloedd ar gyfer gweithredu, darparu cyngor technegol ynghylch gwaith adfer, ymgymryd â gwaith parhaus ar ein hystâd ni ein hunain ac ar dir y mae gennym ddylanwad arno trwy'r gyfundrefn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a datblygu prosiectau mawr y mae angen cyllid allanol ar eu cyfer. Mae gan aelodau eraill y Grŵp Rhanddeiliaid ystod o rolau cynghori a gweithredu.

3. Y prif sbardun ar gyfer y targed yw gwarchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol mawndiroedd Cymru a'r rôl y mae adfer mawndiroedd yn ei chwarae o ran lleihau allyriadau carbon, sy'n rôl a gydnabyddir erbyn hyn. Mae hynny'n golygu bod modd cynnwys yr arbedion o ran allyriadau, a wneir o ganlyniad i'r gwaith hwn, yn rhan o brosesau cyfrifo nwyon tŷ gwydr cenedlaethol yn dilyn newidiadau diweddar i ganllawiau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pwysleisio manteision lluosog adfer mawndiroedd, yn enwedig o safbwynt bioamrywiaeth a rheoli perygl llifogydd. Mae'r ymrwymiad i adfer mawndiroedd yn rhan o'r polisi cyffredinol ar reoli adnoddau naturiol, a chaiff ei gyflawni trwy nifer o ddulliau.

4. Fel ymrwymiad penodol gan y Llywodraeth, mae'r targed ar gyfer adfer mawndiroedd yn ymateb i ystod o offerynnau statudol a pholisïau, gan gynnwys:

- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (sy'n nodi pwysigrwydd mawndiroedd o ran storio carbon a phwysigrwydd gwarchod y storfeydd hynny),
- agweddau pwysig ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (yn enwedig y nod sy'n ymwneud â sicrhau Cymru fwy cydnerth),
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (gwaith llywodraethu yng nghyswllt targedau statudol Cymru ar gyfer allyriadau a chyllidebau carbon, gan gynnwys y sector defnyddio tir),
- agweddau allweddol ar y Cynllun Adfer Natur,
- y ddyletswydd uwch o ran yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (yn rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i "gynnal a gwella bioamrywiaeth"),
- Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE hyd at 2020,
- elfennau allweddol gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

5. Mae rheoli ac adfer mawndiroedd yn dangos yn arbennig o dda gysyniad 'manteision lluosog' y dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau. Ceir perthynas uniongyrchol rhwng cyflwr ecolegol mawndiroedd a'u pwysigrwydd i fioamrywiaeth, a'u cydnerthedd a'u gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystem. Mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr da a mawn sydd wrthi'n ffurfio yn gysylltiedig â'r lefelau isaf (neu lefelau negyddol) o allyriadau carbon, tra mae mawndiroedd sydd mewn cyflwr gwael yn rhyddhau rhwng 3 a 45 gwaith yn fwy o garbon fesul uned arwynebedd. Mae pwyslais y Llywodraeth ar fawndiroedd yn rhoi mandad cryf i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu'r maes hwn fel enghraifft o fanteision y dull gweithredu sy'n seiliedig ar reoli adnoddau naturiol, mewn maes lle mae gennym gryn dystiolaeth, arbenigedd a gallu i weithredu. At hynny, rydym ni ein hunain yn rheoli ardaloedd sylweddol o fawndir.

6. Hyd yma mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r ymrwymiad a'r targed sy'n gysylltiedig ag adfer mawndiroedd. Mae ein cyfraniad o safbwynt gweithredu ar lawr gwlad yn helaeth hefyd. Mae'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cynnwys 47,440 hectar o fawn dwfn, gyda 13,500 hectar wedi'u cynnwys mewn cytundebau rheoli; mae tua 70% o'r adnodd hwn mewn cyflwr anffafriol o hyd. Ceir 22,100 hectar o gynefin mawndir yn y gyfres o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac rydym eisoes yn cefnogi gwaith adfer sylweddol ar draws llawer o'r safleoedd hyn, gan gynnwys y 15 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol lle ceir mawndir. Rydym wedi arwain neu gyfrannu at 2 brosiect pwysig sy'n gysylltiedig â mawndiroedd dan raglen LIFE.

7. Mae'r ffaith bod y targed wedi'i gyfyngu i fawndiroedd lled-naturiol yn dangos mor anodd yw hi (yn dechnegol ac yn ariannol) i gyflawni, erbyn 2020, y gwaith o adfer y mawndiroedd sydd wedi'u haddasu fwyaf ac sy'n cael eu rheoli'n ddwys at ddibenion amaethyddiaeth neu goedamaeth. Gallai cyrraedd y targed presennol arwain at arbed gwerth 168 cilotunnell o $CO_2e$ y flwyddyn$^{-1}$ o allyriadau, a byddai hynny'n codi i werth 400 cilotunnell o $CO_2e$ y flwyddyn$^{-1}$

o allyriadau (sy’n gyfwerth â thua 7% o’r holl allyriadau sy’n gysylltiedig â thrafnidiaeth yng Nghymru) o gynnwys yr holl fawndiroedd.

8. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn cyflawni gwaith adfer sylweddol ar y mawndiroedd hyn sydd wedi’u haddasu fwyaf. Mae ein rhaglen ar gyfer mawndiroedd sydd wedi’u coedwigo (ceir 11,000 hectar ar ystâd goetir Llywodraeth Cymru) wedi datblygu pecyn cymorth ar gyfer blaenoriaethu safleoedd ar sail y manteision amgylcheddol lluosog a ddarperir. Mae 300 hectar o’r 10 safle uchaf eisoes wedi’u hadfer ac mae gwaith wedi’i gynllunio ar gyfer 200 hectar arall; mae gwaith eisoes wedi’i gyflawni i adfer 660 hectar arall o fawndir wedi’i goedwigo.

9. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymwneud yn helaeth â datblygu’r sylfaen dystiolaeth gadarn sy’n sail i’r targed ar gyfer adfer mawndiroedd ac a arweiniodd at gymeradwyo’r targed ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Buom yn gyfrifol am gydgynhyrchu’r prif adroddiad tystiolaeth a oedd yn cefnogi’r targed ar gyfer adfer mawndiroedd (a gyhoeddwyd yn rhan o Brosiect Monitro a Gwerthuso Glastir). Yn fwy diweddar, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gydgynhyrchu ffeithlun yn rhan o bapur briffio ar gyfer y Gweinidog Cyfoeth Naturiol cyn cyfarfod 21fed Gynhadledd y Partïon (CoP 21) a gynhaliwyd ym Mharis (Atodiad 1). Bydd angen cymorth parhaus i gyrraedd y targed ar gyfer adfer mawndiroedd erbyn 2020, a sicrhau bod ymdrechion ac adnoddau’n cael eu sianelu’n briodol.

10. Ym mis Mai 2015, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi prosiectau posibl yn ymwneud â mawndiroedd i’w cyllido dan raglen LIFE yr UE. Mae’n briodol canolbwyntio ar y gyfres o safleoedd Natura 2000; mae 80% o nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig lle ceir mawndir mewn cyflwr anffafriol, ac maent wedi’u nodi yn faes gweithredu â blaenoriaeth yn y Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth a luniwyd gan brosiect Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi ystyried ystod o brosiectau posibl gan ddefnyddio meini prawf a oedd yn cynnwys y potensial i gyflawni’r camau gweithredu allweddol a nodwyd yn y Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth, gallu prosiectau i gynnig manteision lluosog, cyfraniad at waith rheoli adnoddau naturiol a blaenoriaethau busnes allweddol eraill, y graddau y mae cydarianwyr ar gael a’r graddau y gellir cyflawni’r gwaith yn gyffredinol erbyn 2020. Cafodd cynigion cychwynnol eu cyflwyno i Fwrdd Strategaeth Cyllid Allanol Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf 2015 a chafwyd cymeradwyaeth i barhau i ddatblygu prosiectau a phartneriaethau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bartner yn y cynnig a gaiff ei arwain gan Natural England i adfer y gyforgors weithredol yn Ardal Cadwraeth Arbennig Fenn’s, Whixall, Bettisfield, Wem and Cadney Mosses.

**Asesiad**

11. Mae angen cymorth ac arweiniad parhaus gan Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod targed Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer mawndiroedd yn cael ei gyrraedd. Elfen allweddol o hynny yw ein gwaith i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer mawndiroedd Cymru ar sail cynllun gweithredu wedi’i flaenoriaethu sy’n nodi blaenoriaethau adfer sy’n cynnig manteision lluosog.

Bydd y strategaeth hon yn llywio gwaith partneriaid, yn helpu i nodi'r cyllid y mae ei angen i gyrraedd targed 2020 ac yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfrifo'r budd cyffredinol y mae mawndiroedd Cymru yn ei gynnig i gymdeithas.  Ochr yn ochr â hynny, mae'r Prosiect Carbon Bositif yn cyfrifo statws carbon net Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cynnwys amcangyfrif yr allyriadau o'n hystâd a'r carbon sydd wedi'i storio arni, a gwerthuso opsiynau lliniaru a fydd yn cynnwys ystyried y potensial i waith adfer mawndiroedd gyfrannu at leihau ôl troed carbon Cyfoeth Naturiol Cymru.

12. Mae angen parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r ymrwymiad i adfer mawndiroedd.  Mae hynny'n cynnwys rhaglen Arolwg Mawndiroedd strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, cael gafael ar ddata gofodol ar gyfer mawndiroedd a'i ddadansoddi gan ymdrin â metrigau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, cyflwr ecolegol, carbon a lleihau perygl llifogydd, a chefnogi prosiectau ymchwil a datblygu allweddol sy'n cael eu cynllunio neu'u cynnal er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ynghylch perthnasedd ehangach mawndiroedd o safbwynt ecosystemau, yn enwedig o ran llif carbon.  Bydd cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru i esblygiad Prosiect Monitro a Gwerthuso Glastir yn y dyfodol yn hanfodol yn hynny o beth, trwy gydgynhyrchu rhaglenni tystiolaeth hollbwysig.

13. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r Cod Mawndiroedd ac ennyn ymrwymiad iddo (adnodd sy'n seiliedig ar TWE i sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat mewn gwaith adfer -  www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/peatland-code) yng Nghymru ynghyd â dulliau eraill, gan gynnwys gwaith i wella'r modd y cyflawnir deilliannau gan gynllun Glastir, gwaith parhaus Grŵp Rhanddeiliaid Mawndiroedd Cymru a gwaith i gefnogi cais cydgysylltiedig am Gynllun Rheoli Cynaliadwy gan y Grŵp Rhanddeiliaid. Mae pob un o'r mentrau hyn yn cynnig y potensial i wneud gwaith rheoli mawndiroedd yn fwy cynaliadwy, gyda chyllid allanol yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill lle mae buddsoddi cyfalaf cychwynnol sylweddol yn angenrheidiol (gweler isod). Mae cyrff anllywodraethol yn gwneud cryn ymdrech i sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat trwy'r Cod Mawndiroedd; byddai'n fanteisiol pe bai'r strategaeth a amlinellir ym mhwynt 11 uchod yn llywio'r gwaith hwn.

14. Y prif faes lle mae angen ystyried adnoddau'n ofalus yw'r gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer cael cyllid allanol i gyflawni elfennau o'r Polisi Mawndiroedd. Mae dwy brif elfen yn perthyn i hynny: cais arfaethedig am Brosiect Integredig LIFE ar lefel y DU, a sawl prosiect LIFE confensiynol.

15. Mae rhaglen LIFE yr UE ar gyfer 2014-2020 yn cynnwys elfen 'Prosiectau Integredig' newydd i gefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau neu strategaethau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth i'r rhaglen ar lefel aelod-wladwriaethau.  Mae consortiwm a arweinir gan DEFRA, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, wedi bod wrthi'n datblygu Prosiect Integredig LIFE ar gyfer mawndiroedd y DU ers diwedd 2013.  Un o amcanion allweddol y prosiect yw gwireddu potensial mawndiroedd y DU i leihau allyriadau carbon, trwy ddatblygu strategaeth genedlaethol ac ystod o systemau sy'n seiliedig ar TWE, a chamau i fynd i'r afael â gwaith adfer

mawndiroedd yn y cyd-destunau mwyaf heriol, gan gynnwys mawn dwfn sy'n cael ei reoli'n ddwys at ddibenion amaethyddiaeth.

16. Caiff cyfraniad Cymru i'r Prosiect Integredig LIFE ei arwain gan Lywodraeth Cymru; gofynnir i ni ganolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth ategol a chyngor arbenigol a datblygu prosiectau a fydd yn ategu'r Prosiect Integredig, gan gynnwys prosiectau LIFE confensiynol.

17. Mae dau brosiect LIFE wrthi'n cael eu datblygu:

- prosiect i adfer cyforgors weithredol (sy'n gynefin â blaenoriaeth a nodir yn Atodiad I) yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cors Fochno a Chors Caron yng Ngheredigion, y bwriedir ei gyflwyno yn 2017.
- prosiect i adfer gorgors ar draws y tair Ardal Cadwraeth Arbennig sydd ar yr ucheldir yng Nghymru, a ddynodwyd oherwydd yr orgors weithredol sy'n gynefin â blaenoriaeth a nodir yn Atodiad 1; mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn bwriadu cyflwyno'r prosiect hwn yn 2016.

18. Byddai prosiect cyforgorsydd Ceredigion yn cyflawni ystod eang o flaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru trwy brosiect integredig i gyflawni amcanion o ran bioamrywiaeth, carbon a lleihau perygl llifogydd o fewn y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai'r elfen sy'n ymwneud â Chors Fochno yn hybu agweddau pwysig ar ein gwaith datblygu yn ardal brawf Dyfi ac yn golygu hefyd bod modd cyflawni camau gweithredu allweddol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r adolygiad presennol o Ardaloedd Draenio Mewnol a datrys hen broblemau sy'n gysylltiedig â rheoli lefel y dŵr yn yr ardal hon. Byddai statws cyforgors weithredol fel cynefin 'â blaenoriaeth' yn golygu bod modd cael cyllid sy'n cyfateb i 75% o gost y prosiect, ac y byddai angen cael rhywun i gydariannu'r 25% sy'n weddill. Gallai rhaglenni gwaith cyfredol neu ffrydiau cyllid allanol eraill fod yn gymwys fel cyfraniadau cyfatebol.

19. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn arwain y gwaith o ddatblygu prosiect gorgorsydd yr ucheldir gan ganolbwyntio ar y Berwyn (Efyrnwy) a'r Migneint. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i ymestyn y prosiect hwn i gynnwys yr Elenydd, gan sicrhau felly ei fod yn ymdrin â phob un o'r tair Ardal Cadwraeth Arbennig allweddol yng Nghymru lle ceir gorgors a chan ddarparu dull o adfer corsydd sydd wedi'u haddasu'n helaeth lle mae *Molinia* yn fwy amlwg na dim byd arall.

## Argymhellion

20. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r datblygiadau sylweddol diweddar yn y flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i fawndiroedd, a chymeradwyo gwaith parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygu'r sylfaen dystiolaeth, darparu cyngor arbenigol a datblygu a gweithredu prosiectau yng nghyd-destun cyffredinol gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

21. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu dau brosiect sylweddol dan raglen LIFE, gan gynnwys gwaith i nodi posibiliadau cydariannu ar sail cael grant o 75% gan yr UE. Bydd y prosiectau hyn yn

gyfle i ddangos yn ymarferol fanteision y dull gweithredu sy’n seiliedig ar reoli adnoddau naturiol. Mae dogfennau cychwyn prosiect llawn ar gyfer y ddau brosiect wedi’u cyflwyno i Fwrdd Strategaeth Cyllid Allanol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cymorth gyda’r elfen gydariannu; mae’r posibilrwydd o gael cyllid cyfatebol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn cael ei archwilio hefyd.

22. O gofio’r amserlen heriol sy’n gysylltiedig â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer mawndiroedd erbyn 2020 a’n heriau ariannol ni ein hunain, mae angen i ni sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn, ac yn rhoi blaenoriaeth lle bo hynny’n bosibl, i waith rheoli ac adfer mawndiroedd ar draws ardaloedd sy’n cael eu rheoli gennym ac y mae gennym ddylanwad arnynt, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

## Prif risgiau

23. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod cymorth Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyswllt y maes polisi hwn yn hollbwysig. Mae’r ymrwymiad i adfer mawndiroedd yn cyd-fynd yn agos â dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru a’r broses o ddatblygu a gweithredu gwaith rheoli adnoddau naturiol. Bydd angen i ni weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar raglen waith yn wyneb adnoddau sy’n prinhau. Byddwn yn sicrhau hefyd bod y targedau hyn sy’n flaenoriaeth yn cael sylw yng nghamau gweithredu’r Cynllun Adfer Natur er mwyn sicrhau bod gwaith cyflawni’n cael ei wneud mewn modd cydweithredol ac mewn partneriaeth. Mae rhywfaint o risg ariannol yn perthyn i’r gwaith o weithredu un neu ragor o brosiectau LIFE, ond mae modd i’r risg honno gael ei gwrthbwyso gan ein profiad sylweddol o reoli ac ymwneud â phrosiectau mawr a ariennir yn allanol, a’r potensial i ddefnyddio rhaglenni gwaith cyfredol neu hyd yn oed ffrydiau eraill o gyllid allanol fel cyfraniadau cyfatebol.

## Goblygiadau ariannol

24. Gall staff presennol ddarparu cymorth arbenigol technegol (y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio) a chymorth gweithredol, o flaenoriaethu rhaglenni gwaith yn briodol. Mae angen gwneud tipyn yn rhagor o waith datblygu ar yr elfennau cyllid allanol cyn y gellir darparu costau. Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Strategaeth Cyllid Allanol Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru trwy Fforwm Cyllid LIFE i chwilio am gyllid cyfatebol. Bydd mewnbwn Cyfoeth Naturiol Cymru i wella gwaith adfer mawndiroedd trwy Glastir, datblygu cais Cymru gyfan am Gynllun Rheoli Cynaliadwy, cyflawni Prosiect Integredig LIFE ar gyfer mawndiroedd y DU, a chefnogi’r gwaith o ddatblygu’r Cod Mawndiroedd yng Nghymru ac ennyn ymrwymiad iddo, i gyd yn cynnig ffrydiau cyllid pwysig ac yn helpu i gynnwys tirfeddianwyr a rheolwyr tir fel partneriaid cydradd yn y broses gyffredinol. Bydd datblygu’r strategaeth ar gyfer cyrraedd targed y Gweinidog yn rhoi dealltwriaeth well o’r goblygiadau cyffredinol o ran adnoddau. Byddai angen adnoddau ychwanegol sylweddol pe bai’r targed yn cael ei ehangu yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2016 i gynnwys ein mawndiroedd sydd wedi’u haddasu

fwyaf: mae gwaith presennol Cyfoeth Naturiol Cymru i adfer mawndiroedd sydd wedi'u coedwigo eisoes wedi'i gyfyngu'n fawr.

**Cyfathrebu**

25. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddatganiad i'r wasg ar 27 Tachwedd 2015 yn amlinellu ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru ac yn cyhoeddi'r ffaith y byddai'r Gweinidog yn bresennol yn CoP 21.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

26. Nid yw gwaith sgrinio ar sail proses Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi nodi unrhyw broblemau posibl o ran cydraddoldeb.

27. Tirfeddianwyr a rheolwyr tir fydd y prif bobl a fydd yn elwa'n ariannol o gynlluniau cymell i sicrhau bod mawndiroedd yn cael eu rheoli'n ffafriol. Nid yw hynny'n achosi unrhyw broblemau amlwg o ran cydraddoldeb gan mai presenoldeb mawn yw'r prif faen prawf.

28. Mae'r manteision lluosog sydd i'w cael o adfer mawndiroedd yn cynnig ystod o fanteision i'r gymuned, sy'n cynnwys lleihau'r newid yn yr hinsawdd, gwella gallu mawndiroedd i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, cadw a gwella elfennau sy'n symbolau o dirwedd Cymru, gwarchod bioamrywiaeth, a manteision o ran perygl llifogydd. Mae adfer mawndiroedd yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi; nid yw cost gwaith adfer yn effeithio ar y sawl sy'n byw mewn tlodi ond bydd y manteision yn cael eu rhannu'n gyfartal gan bawb yng Nghymru.

**Mynegai i'r Atodiadau**

**Atodiad 1.** Ffeithlun y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a gynhyrchwyd ar gyfer cyfarfod CoP 21.